# Cofrestr Fabwysiadu Cymru

# Adroddiad Canol Blwyddyn

# 2025-26

**CHWARTERI 1 a 2: Ebrill – Medi 2025**

**Cyflwyniad**

Mae'n bleser gennym rannu'r adroddiad hwn ar gyfer Cofrestr Fabwysiadu Cymru am y cyfnod **1 Ebrill - 30 Medi 2025**.

**Gweithgarwch y Gofrestr Fabwysiadu**


<u>Plant</u>

Ar 30 Medi 2025 roedd **298** o blant ar y gofrestr a **194** o blant yn aros heb unrhyw gysylltiadau. Mae hyn yn cymharu â'r un adeg y llynedd pan oedd **241** o blant ar y gofrestr a **144** o blant yn aros ar y gofrestr. Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n aros oherwydd cynnydd yn nifer y Gorchmynion Lleoli sy'n cael eu rhoi, a llai o ddarpar fabwysiadwyr ar gael o'i gymharu â'r un adeg y llynedd.

Ymarferwyr o'r rhanbarthau ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol sy'n gyfrifol am ddiweddaru a chynnal proffiliau plant a mabwysiadwyr sydd ar y gofrestr. Mae tîm y gofrestr yn parhau i fonitro a chefnogi ymarferwyr i sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chadw'n gyfredol ac maent yn cynllunio'n rhagweithiol i wella cysylltu a pharu effeithiol drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau eraill.


Ychwanegwyd **129** o broffiliau plant at y gofrestr yn ystod y ddau chwarter cyntaf eleni, o'i gymharu â **142** o blant yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Ychwanegwyd y proffiliau hyn yn y rhanbarthau canlynol:




**Nodweddion y plant**

O'r **129** o blant a ychwanegwyd gan y Rhanbarthau, roedd **68** (53%) yn wrywaidd, a **61** (47%) yn fenywaidd. Roedd mwyafrif y plant a ychwanegwyd at y Gofrestr yn y cyfnod hwn yn blant 1 oed ac iau (**77 i gyd, sef 60%**).





O'r **129** o blant a ychwanegwyd, roedd **35** (27%) mewn grwpiau o frodyr a chwiorydd. Mae hyn ychydig yn is na'r nifer o'r un cyfnod y llynedd.

Cafodd y plant a ychwanegwyd eu categoreiddio yn ôl 9 ethnigrwydd gwahanol fel y dangosir isod, gyda'r mwyafrif ohonynt, sef **106** (82%), o gefndir Gwyn Cymreig:





O'r holl blant a ychwanegwyd yn ystod y cyfnod hwn, roedd gan 26 o leiaf un angen sylweddol wedi'i gofnodi. Cyflwr meddygol amhenodol oedd yr angen mwyaf cyffredin.




## Teuluoedd

Ar 30 Medi 2025, roedd **96** set o fabwysiadwyr ar y gofrestr ac roedd **46** o'r mabwysiadwyr hyn yn aros heb unrhyw gysylltiad gweithredol. Mae hyn yn cymharu â'r un adeg y llynedd pan oedd **113** set o fabwysiadwyr ar y gofrestr a **64** o fabwysiadwyr yn aros heb unrhyw gysylltiad gweithredol. Mae'r gostyngiad yn nifer y mabwysiadwyr sy'n aros yn cyd-fynd â'r nifer llai o fabwysiadwyr sy'n cael eu hasesu eleni a rhanbarthau'n adrodd bod llawer o'u plant yn cael eu lleoli gyda'u mabwysiadwyr eu hunain ac felly'n aros llai o amser i gael pariad.

Ychwanegwyd **48** o deuluoedd at y Gofrestr yn ystod dau chwarter cyntaf 2025 o'i gymharu â **54** yn yr un cyfnod y llynedd. Cofrestrwyd y rhain gyda'r asiantaethau canlynol:




### Nodweddion mabwysiadwyr

O'r **48** o deuluoedd mabwysiadol a ychwanegwyd yn ystod y cyfnod hwn, roedd y mwyafrif, **29** (60%), mewn cwpl cymysg eu rhywedd ac nid oedd gan **39** (81%) o'r teuluoedd a ychwanegwyd yn ystod y chwarter hwn unrhyw blant presennol. Mae'r mwyafrif, 59%, yn nodi eu bod yn dod o gefndir Gwyn Cymreig, a 30% yn nodi eu bod o gefndir Gwyn Seisnig. Nododd yr 11% sy'n weddill eu bod o ethnigrwydd arall/cymysg.


### Paru Plant

Mae data'r gofrestr yn dangos bod cyfanswm o **62*** o blant sy'n hysbys i'r Gofrestr wedi eu paru rhwng Ebrill a Medi 2025, o'i gymharu â **67** wedi'u paru yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

*Mae rhai pariadau'n cael eu cytuno o fewn y rhanbarth ac yn cael eu hychwanegu maes o law.

O'r **62** o bariadau a gofnodwyd, roedd **26** (42%) o'r rhain yn bariadau a wnaed o ganlyniad i ddefnyddio'r Gofrestr fel ffordd o ddod o hyd i deulu. Mae hyn yn gynnydd bach o'i gymharu â'r llynedd pan gafodd **23** (34%) o'r **67** o bariadau eu gwneud o ganlyniad i ddefnyddio'r Gofrestr i ddod o hyd i deulu. O'r **62** o bariadau a gafodd eu cofnodi roedd 65% (n40) wedi'u paru gyda theuluoedd o Gymru a oedd yn hysbys i'r Gofrestr.


Parwyd y **62** o blant yn y rhanbarthau/asiantaethau canlynol:




O'r **62** a gafodd eu paru, roedd **33** (53%) yn wrywaidd, ac roedd **29** (47%) yn fenywaidd. Roedd y rhan fwyaf o'r pariadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn yn blant unigol, gyda **12** (46%) yn rhan o grŵp brodyr a chwiorydd.

Roedd y plant a gafodd eu paru wedi'u categoreiddio o fewn **7** ethnigrwydd gwahanol. Roedd y mwyafrif (82%) yn blant o gefndiroedd Gwyn Cymreig. Roedd **39** o'r plant a gafodd eu paru yn 0-1 oed, **21** ohonynt yn 2-4 oed a **3** ohonynt yn 5 oed ac yn hŷn.

O'r **62** o blant a gafodd eu paru, roedd gan **21** (31%) ohonynt o leiaf un angen a gofnodwyd fel un presennol neu sylweddol. Mae'r siart bar hwn yn dangos nifer yr achosion o bob math o angen a'i ddifrifoldeb.




**Paru Teuluoedd**

Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2025 mae cyfanswm o **36*** o deuluoedd a oedd yn hysbys i'r Gofrestr wedi cael eu paru. Mewn cymhariaeth, cafodd **51** o deuluoedd eu paru yn ystod yr un cyfnod yn 2024. O'r **36** o bariadau, roedd **9** (25%) yn rhai a wnaed o ganlyniad i ddefnyddio'r Gofrestr

i ddod o hyd i deulu, gyda'r gweddill yn cael eu paru trwy ddulliau eraill o ddod o hyd i deulu. O'r **36** o bariadau hyn a gofnodwyd, roedd **32** wedi'u paru â phlant o Gymru a oedd yn hysbys i'r Gofrestr ac roedd **4** wedi'u paru â phlant y tu allan i CFC.

*Mae rhai pariadau'n cael eu cytuno o fewn y rhanbarth ac yn cael eu hychwanegu maes o law.

### Digwyddiadau Dod o Hyd i Deuluoedd

Cynhaliodd CFC Ddiwrnod Gweithgareddau Mabwysiadu gyda chefnogaeth Coram BAAF, a gomisiynwyd gennym i gynnal y digwyddiad yng Nghaerdydd ar 28 Mehefin 2025. Digwyddiad ar thema jyngl oedd hwn gyda **39** o blant o bob cwr o Gymru yn cymryd rhan yn y digwyddiad a **34** o blant yn bresennol ar y diwrnod. Daeth **19** o deuluoedd i'r digwyddiad. Gwnaed cyfanswm o **35** o ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer **19** o'r plant, a arweiniodd at **8** pariad. Dyma oedd y nifer uchaf o bariadau a wnaed trwy Ddiwrnod Gweithgareddau Mabwysiadu yng Nghymru, ac mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd y digwyddiadau dod o hyd i deuluoedd hyn.






Oherwydd llwyddiant y digwyddiad hwn, mae Diwrnod Gweithgareddau Mabwysiadu arall wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2026.

### Cyfarfodydd Dod o Hyd i Deuluoedd

<u>Fforwm Rheolwyr ac Ymarferwyr CFC</u>

Mae Tîm CFC yn parhau i gyfarfod bob tri mis â rheolwyr ac ymarferwyr ar draws y 5 Rhanbarth Mabwysiadu yng Nghymru a'r 2 Asiantaeth Fabwysiadu Wirfoddol er mwyn trafod a chynllunio digwyddiadau dod o hyd i deuluoedd sydd ar y gweill, yn ogystal ag unrhyw faterion eraill sy'n codi o ran dod o hyd i deuluoedd, gan gynnwys unrhyw broblemau/diweddariadau gyda Link Maker. Mae cyfle hefyd i drafod proffiliau plant a mabwysiadwyr sy'n aros. Roedd y cyfarfodydd a gynhaliwyd hyd yma eleni ar 9 Ebrill ac 15 Gorffennaf. Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ar 18 Tachwedd 2025.

<u>Cyfarfod Cofrestr y DU/Protocol Rhyng-gofrestrau</u>

Mae CFC wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol gyda'r Timau Cofrestru yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal â'r Rheolwr Gwella Ymarfer a Datblygiad sy'n gweithio ar draws Lloegr. Mae cyfarfodydd fel arfer yn cael eu cynnal bob tri mis, a hyd yma eleni maent wedi cael eu cynnal ar 13 Mai a 16 Medi 2025. Cynhelir trafodaethau ynghylch arferion gweithio cyfredol ym mhob un o'r ardaloedd gyda phwyslais ar rannu syniadau ac arferion da o ran dod o hyd i deuluoedd. Mae proffiliau plant a mabwysiadwyr sydd ag anghenion penodol a meini prawf paru yn cael eu rhannu gan y grŵp y tu allan i'r cyfarfodydd. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu i gael ei gynnal ar 9 Rhagfyr 2025.

Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd

Mae CFC yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd (GMGG) ac yn cyfarfod bob mis. Trafodir plant sydd wedi bod yn aros ar y gofrestr am 9 mis neu fwy ac os nad ydynt wedi cael eu cyfeirio at y GMGG yna bydd tîm CFC yn cysylltu â'r gweithiwr dod o hyd i deulu i annog atgyfeiriad at y GMGG os yw'n briodol.

Mae tîm CFC hefyd yn cefnogi'r GMGG i gynllunio a chynnal eu "diwrnod chwarae" cyntaf, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 15 Tachwedd 2025. Mae'r digwyddiad dod o hyd i deuluoedd hwn yn dilyn model tebyg i'r Diwrnodau Gweithgareddau Mabwysiadu ond ar raddfa lai. Bydd darpar fabwysiadwyr yn cael eu gwahodd i ddod i gwrdd â phlant sy'n aros ar hyn o bryd ac yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd. Byddant yn cwrdd mewn lle preifat lle byddant yn gallu chwarae a rhyngweithio'n ddiogel a ffurfio cysylltiadau na fyddant efallai'n eu cael drwy ddarllen proffil ysgrifenedig yn unig.

**Cyfarfodydd Link Maker**

Mae CFC yn parhau i gyfarfod â Link Maker yn rheolaidd bob 6-8 wythnos i drafod datblygu'r gwasanaeth a datrys unrhyw broblemau neu ymholiadau. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 23 Medi 2025. Cynhelir cyfarfodydd monitro contract bob deufis hefyd. Cynhaliwyd y cyfarfod monitro contract diwethaf ar 4 Mehefin 2025. Mae'r un nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 3 Rhagfyr 2025.

**Hyfforddiant**

Hyfforddiant Gloywi CFC/Link Maker

Cynhaliwyd hyfforddiant gloywi i ymarferwyr a rheolwyr ar ddefnyddio'r Gofrestr/Link Maker ar 2 Ebrill. Roedd sesiwn arall wedi'i threfnu ar gyfer 16 Gorffennaf ond cafodd ei chanslo oherwydd diffyg niferoedd. Mae disgwyl i'r sesiwn nesaf gael ei chynnal ar 22 Hydref a 4 Chwefror 2026.

**Blaenoriaethau ar gyfer ail hanner y flwyddyn**

- Cynllunio ar gyfer y Diwrnod Gweithgareddau Mabwysiadu nesaf, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 21 Mawrth 2026.
- Mae disgwyl i Weithdy Ysgrifennu Proffiliau gael ei gynnal ar 1 Hydref 2025. Nod y gweithdy hwn yw gwella ansawdd proffiliau ysgrifenedig ar gyfer plant a mabwysiadwyr.
- Mae hyfforddiant gloywi pellach i ymarferwyr a rheolwyr ar ddefnyddio CFC/Link Maker wedi'i drefnu ar gyfer 22 Hydref a 4 Chwefror 2026.
- Cefnogi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd i gynnal eu diwrnod chwarae cyntaf ar 15 Tachwedd 2025.
- Parhau i gyfarfod â Link Maker yn rheolaidd i fonitro'r contract a'r gwasanaeth.

Parhau i fonitro plant sydd ar y gofrestr am 9 mis a mwy er mwyn sicrhau bod rhanbarthau'n cael eu hysgogi mewn ffordd amserol i ystyried atgyfeirio plant at y Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd (pan fo hyn yn angenrheidiol ac yn briodol).

Diweddaru canllawiau’r gofrestr fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y GMC i adolygu a datblygu'r Canllawiau Arfer Da ar Ddod o Hyd i Deuluoedd.